

RPB Caerdydd a'r Fro

Defnyddio data i sicrhau canlyniadau gwell:
Y gwasanaeth Safe@home newydd

- www.cavrp.org
- hsc.integration@wales.nhs.uk



Yn y sesiwn holi ac ateb hon mae Sioned Owen, Uwch Ddadansoddwr Partneriaeth yn nhîm Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, yn trafod y gwasanaeth Safe@home newydd a sut mae data o'r Safle Rhannu Gwybodaeth Ranbarthol (RISS) wedi cyfrannu at ei ddatblygiad.



*Sioned Owen, Uwch
Ddadansoddwr
Partneriaeth*

Mae'r RISS wedi'i gynllunio i'ch helpu i gynllunio, monitro a gwerthuso eich gwaith. Mae'n dwyn ynghyd ac yn cysylltu data allweddol, dienw gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST), Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCAF) a Chyngor Caerdydd, a data nad yw'n gysylltiedig gan Gyngor Bro Morgannwg a phartneriaid trydydd sector, er mwyn nodi patrymau neu dueddiadau defnydd gwasanaeth fel system iechyd a gofal gyfan.

Gellir defnyddio'r mewnwelediadau hyn sy'n cael eu gyrru gan ddata i lywio gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau, gan eich galluogi i wella gofal, rhagweld galw, a mesur effaith newidiadau i wasanaethau a ffyrdd newydd o weithio. Mae bod ar-lein yn golygu bod modd cyrchu a gweld y data yn hawdd.

Beth yw Safe@home?

Mae Safe@home yn ymdrech ar y cyd rhwng BIPCAF, WAST, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg ynghyd â phartneriaid ehangach sy'n ceisio ymateb yn gyflym i angen brys, i gefnogi pobl yn ddiogel gartref ac atal yr angen i fynd i'r ysbyty.

Sut wnaethoch chi ddefnyddio data i lywio datblygiad Safe@home?

Roedd Safe@home yn eithaf eang o ran y gofynion data a deallusrwydd busnes. Y man cychwyn y cytunwyd arno oedd creu gwasanaeth a fyddai yng nghartref person, ond nid oeddem yn siŵr pa bobl yr oeddem yn mynd i'w cefnogi, na pha fudd yr oedd yn mynd i'w gael.

Fe wnes i fewngofnodi i'r RISS a dechrau chwilio am batrymau neu dueddiadau allweddol yn y data. Dechreuais ar ddechrau'r 'daith' o ddiddordeb. Yn yr achos hwn, galwadau brys a wnaed i WAST oedd y rhain. Edrychais ar broffil oedran y rhai a alwodd, y gwahanol ffyrdd y cawsant eu hatgyfeirio at y gwasanaethau brys, a oedd unrhyw un o'r ffyrdd hyn yn gysylltiedig â nifer cynyddol o alwadau, a sut roedd y canlyniadau'n amrywio yn ôl ffynonellau atgyfeirio ac yn ôl oedran. Unwaith y cefais syniad clir o'r galw sy'n gysylltiedig â WAST, edrychais wedyn ar dderbyniadau i unedau achosion brys ysbytai a gwneud rhywbeth tebyg ar gyfer y data yn ymwneud â rhannau perthnasol eraill o'r 'system' iechyd a gofal cymdeithasol.



Pan edrychais yn fanylach ar ddata derbyniadau i unedau achosion brys, nodais garfan fawr o bobl a oedd yn cyrraedd naill ai mewn ambiwlans neu ddulliau eraill o deithio ac yna'n dychwelyd adref ar ôl iddynt fynychu, gan olygu na cawsant eu derbyn i'r ysbyty. Y garfan a nodwyd gennym oedd pobl 70+ oed a atgyfeiriwyd gan feddyg teulu neu

wasanaethau brys. Roedd hyn yn codi cwestiwn: pe baem wedi cefnogi'r garfan hon gartref yn y lle cyntaf, a ellid bod wedi osgoi eu cludo i'r ysbyty, mynd i'r uned achosion brys neu eu derbyn i'r ysbyty?

Fe wnaethom wirio ein canfyddiadau gyda rhai clinigwyr a phobl a oedd yn gweithio yn yr uned achosion brys i weld a oeddent yn cytuno â'r hyn yr oedd y data yn ei ddangos i ni. Gwnaethom hefyd gynnal adolygiad manwl o sampl o nodiadau achos cleifion i weld pam eu bod yn dod yn y lle cyntaf a phrofi'r ddamcaniaeth y gallem gefnogi'r bobl hyn gartref. Roedd y clinigwyr a'r adolygiad o nodiadau achos yn cyfateb i'n canfyddiadau, a ddilysodd ein canlyniadau. Arweiniodd hyn at nodi'r garfan darged.

Sut wnaethoch chi ddefnyddio'r data i hysbysu beth allai'r galw fod a manteision disgwylidig y gwasanaeth?

Ar ôl i ni nodi'r garfan darged, buom yn gweithio gyda chlinigwyr i amcangyfrif nifer y bobl y gellid eu cefnogi gan y gwasanaeth newydd, gan gydnabod y byddai angen derbyn rhai o'r bobl ac mai'r ysbyty fyddai'r lle iawn iddynt. Gan ddefnyddio arbenigedd clinigol, daethom i'r casgliad y gallai tua 85% o'r bobl yn y garfan darged dderbyn gofal gartref.

Gan dynnu ar y galw hanesyddol o'r garfan darged a gallu rhagweld RISS, roeddem wedyn yn gallu gweld y galw posibl am y gwasanaeth dros y 12 mis nesaf. Gan ddefnyddio'r siartiau rhagolwg ac arbenigedd clinigol, gwnaethom amcangyfrif y byddai Safe@Home yn cefnogi tua 150 o bobl bob wythnos, gan eu helpu i osgoi mynd i'r uned achosion brys, ac atal 20 o bobl eraill rhag cael eu derbyn i'r ysbyty.

Mae cefnogi'r bobl hyn i dderbyn gofal meddygol brys yn eu cartrefi, yn lle amgylchedd ysbyty, yn un o fanteision allweddol disgwylidig y gwasanaeth Safe@Home. Rhai newidiadau eraill yn y system iechyd a gofal ehangach y mae'r gwasanaeth yn gobeithio cyfrannu tuag atynt yw lleihau'r nifer sy'n cael eu cludo o'r ysbyty i'r uned achosion brys ar gyfer y garfan darged a derbyniadau i'r Uned Asesu.



Sut y bydd yr RISS yn cefnogi gwaith monitro a gwerthuso parhaus?

Rydym wrthi'n creu dangosfwrdd yn yr RISS i olrhain manteision disgwylidig y gwasanaeth Safe@Home. Bydd yn cynnwys rhai dangosyddion perfformiad allweddol, megis nifer y bobl a gefnogir, a newidiadau system ehangach gan gynnwys nifer y bobl o'r garfan darged sy'n cael eu cludo i'r ysbyty mewn ambiwlans. Bydd yr holl ddata allweddol a siartiau y cytunwyd arnynt yn cael eu cadw ar-lein mewn lleoliad canolog, hawdd ei gyrraedd er mwyn i dîm prosiect Safe@Home allu eu monitro a'u hadolygu.

Sut wnaeth y wybodaeth hon helpu tîm y prosiect pan oeddent yn llunio eu cynlluniau?

Credaf fod y data bob amser wedi bod yn flaengar yn y prosiect hwn. Mae'r holl benderfyniadau a wnaed o ran pwy y dylem eu cefnogi, y gweithlu, oriau agor a ble yr oeddem yn mynd i seilio'r gwasanaeth i gyd wedi'u llywio gan y data.

Pa wersi allweddol ydych chi wedi'u dysgu?

Yn gyntaf, ei bod yn bwysig cofio mai un ffynhonnell ddata yw'r RISS. Mae'n lle gwych i ddechrau, ond mae angen i chi hefyd edrych ar wybodaeth y tu allan i'r RISS. Yn y gwaith hwn fe wnaethom hefyd ofyn am ddata gan Ysbyty Tywysoges Cymru a'i ddadansoddi rhag ofn bod trigolion Caerdydd a'r Fro yn mynd yno'n rheolaidd i gael gofal iechyd brys a'n bod felly yn tanamcangyfrif cyfanswm y galw.

Yn ail, mae cyflwyniad yn bwysig iawn. Mae'n werth cymryd yr amser i ddeall yr hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthyf a thynnu'r negeseuon allweddol allan pan fyddwch yn ei gyflwyno. Fy null i yw defnyddio dau neu dri siart allweddol, er mwyn peidio â gorlethu'r rhai rwy'n rhannu'r data â nhw. Mae yna wahanol fathau o siartiau ar gael hefyd, a all helpu wrth geisio dangos gwahanol bethau. Defnyddiais 'siart s' wrth gyflwyno data ar weithgaredd i ddangos yr amrywiad ar draws y cyfnod o ddiddordeb, ond defnyddiais siart 'pareto' i ddangos dosbarthiad amseroedd cyrraedd yr uned achosion brys i helpu i lywio'r sgwrs ar oriau agor Safe@home. Mae hefyd yn hawdd echdynnu data o'r RISS a'i ystyried ochr yn ochr â ffynonellau data eraill i ddadansoddi, ac o bosibl, tynnu allan y negeseuon allweddol eraill.

Yn drydydd, nid oes rhaid i chi fod yn 'arbenigwr data' i ddefnyddio'r RISS. Mae'n eithaf greddfoll. Er bod llawer o wybodaeth yno, mae'r cyfan wedi'i labelu a'i chyflwyno'n glir. Rwy'n argymhell eich bod yn cymryd eich amser i edrych o gwmpas ac ymgyswrtio â lle mae pethau, a'r tudalennau gwahanol. Gallwch hefyd arbed y siartiau mwyaf defnyddiol i'ch ffefrynnau, er mwyn adeiladu eich cronfa eich hun o wybodaeth sy'n berthnasol i chi.

Darganfyddwch fwy

[Cliciwch yma i gael mwy o wybodaeth am yr RISS a sut i gael mynediad.](#)

Rwy'n teimlo efallai y bydd angen rhywfaint o help arnaf i gael y gorau o'r RISS. Â phwy y gallaf gysylltu am gymorth?

Mae'n debygol y bydd gan eich sefydliad bobl a all eich helpu i ddadansoddi data a'ch cynorthwyo i ddehongli'r data'n gywir.

Ydych chi eisiau gwybod sut y gallwch chi ddefnyddio ein data i lywio eich penderfyniadau a darparu canlyniadau gwell i bobl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg?

Darganfyddwch sut rydym yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf, berthnasol ar draws y rhanbarth a sut i gael mynediad trwy glicio ar y ddolen hon.

Do you want to know how you can use our data to drive your decision making and deliver better outcomes for people in Cardiff and Vale of Glamorgan?

Find out how we are sharing up-to date, relevant information across the region and how to get access by [clicking this link](#).

